



PWYNTIAU
ARBENNIG
OF
DDIDDORDEB

- Erthygl ar y Llyffant cefnfelyn
- App Ffôn Symudol Ash Tag
- Dilynwch ni! Tudalen Bionet Facebook a Twitter
- Beth sydd ymlaen?

YN Y RHIFYN
HWN:

Beth ydy ffyngau?	1
Ash Tag!	1
Llyffantod cefnfelyn	2
Y cyntaf mewn deugain mlynedd	2
Adfer Perllannau	3
Madfall y Tywod yn anfen eich help chi	3
Cysylltwch â ni	4

Bydd y cyfarfod rhwydwaith bioamrywiaeth ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael ei gynnal ar 16 Ebrill 2013 am 10:30 yb yn swyddfa Asiantaethau Prifffyrdd, Canolfan Rheolaeth Traffig Gogledd Cymru, Ffordd Sam Pari, Conwy, LL32 8RT

HYDREF / GAEAF 2012

TUDALEN 1

Beth ydy ffwng, a beth ydy'r gwahaniaethau rhwng madarch a chaws llyffant?



Nid ydy ffwng yn blanhigyn nac yn anifail. Mae'n debyg i blanhigyn, ond nid oes ganddo gloroffyl. Nid ydy'n gallu gwneud bwyd iddo'i hun fel planhigyn. Yn hytrach maen nhw'n cael eu bwyd drwy amsugno maeth o'u hamgylchfyd sy'n cynorthwyo dadelfennu. Mae ffyngau yn cynnwys madarch, madarch cawod goch, ffwng penddu, codau mwg, cloron y moch, morelau, malltodau, burum, a miloedd o wahanol organebau a micro-organebau. Maen nhw'n amrywio o organebau ungel microsgopig, e.e. burum, i organebau aml diwylliannol anferthol, e.e. pelen bwff anferthol. Er bod digonedd ohonyn nhw trwy'r byd, mae'r rhan fwyaf o ffyngau yn anodd ei gweld oherwydd eu bod yn fach ac oherwydd eu bod yn cuddio mewn pridd neu ar fywyd marw. Maen nhw i'w gweld wrth

ffrwytho, naill ai fel madarch neu lwydni. Maen nhw hefyd yn bresennol yn y pridd neu'n datblygu fel mycelia mân, sef rhan denau'r ffwng sy'n edrych fel gwreiddyn. Y darn sy'n ffrwytho ydy'r hyn y bydd y rhan fwyaf ohonom yn ei adnabod fel ffwng. Mae'n debyg mai'r organeb fwyaf ar y blaned ydy ffwng fel yr un sydd i'w gweld dros 965 hectar o bridd yn y Blue Mountains yn Oregon. Mae'r hydref hwn wedi bod yn dymor da ar gyfer archwilio, adnabod a chofnodi ein ffyngau lleol naill ai fel unigolion neu fel rhan o daith chwilio am ffyngau dan arweiniad un o'n harbenigwyr lleol. Mae'r teithiau hyn yn boblogaidd iawn gydag unigolion o bob oedran a diddordeb. Mae'r cofnodwyr profiadol yn mwynhau'r her o ganfod organebau sydd, ar yr olwg gyntaf, bron yn amhosibl i'w hadnabod. Mae'r plant hwythau yn llawn egni ac yn mwynhau chwiliota am ffyngau cudd yn yr awyr agored. Ar bob taith ffwng yr wyf i wedi bod arni, mae rhywun wedi gofyn y cwestiwn "Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng madarch a chaws llyffant?" Mae'r rhan fwyaf o ffynonellau

gywyddonol yn nodi nad oes unrhyw wahaniaeth. Mae pobl yn dueddol o gyfeirio at gaws llyffant fel y rhai gwenwynig a'r madarch fel y rhai y gellir eu bwyta. Fodd bynnag, mae rhai madarch hefyd yn wenwynig. Mae nifer o lyfrau anwyddonol yn nodi mai madarch na ellir ei bwyta ydy caws llyffant. Felly, yr ateb mwyaf diogel ydy "Nid oes unrhyw wahaniaeth gywyddonol, ond mae pobl yn cyfeirio at gaws llyffant fel y rhai gwenwynig neu'r rhai na ellir eu bwyta." Mae'n bosibl i chi weld ffyngau yng Nghastell y Waun, hen fynwentydd eglwys, Chwarel Marford, coetiroedd hynafol fel Coed Trellyniau, Y Gogarth a glaswelltiroedd ffrwythlon eraill.



Ash Tag! - ap ffôn clyfar Gwywiad Ynn (Ash Dieback)

Mae Gwywiad Ynn yn cael ei achosi gan y ffwng *Chalara Fraxinea* a gafodd ei weld yn ddiweddar am y tro cyntaf yn y DU. Mae'r ap, 'Ash Tag' wedi'i ddatblygu fel bod perchnogion ffonau clyfar yn gallu rhoi gwybod am unrhyw achosion posibl o'r heintiad. Mae'r ap yn galluogi'r defnyddwyr i roi gwybod am leoliad yr afiechyd, ynghyd ag

anfon ffotograffau. Bydd y cofnodion hyn wedyn yn cael eu hanfon at y Comisiwn Coedwigaeth. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar Wywiad Ynn fel sut i adnabod yr afiechyd wrth chwilio am nam ar y rhisgl, dail wedi gwywo ar frig y goeden, a dail sydd wedi troi'n frown. Dyma ymgais i rwystro'r afiechyd rhag

lleadaenu rhag effeithio ar yr 80 miliwn o goed ynn sydd yn y wlad hon. Mae'r afiechyd eisoes wedi effeithio ar filiynau o goed ar hyd a lled cyfandir Ewrop. Mae hefyd wedi arwain at wahardd mewnfionion i'r wlad. Mae'n hawdd lawr lwytho a defnyddio'r ap. Ewch i'ch stôr ap a chwiliwch am 'Ash Tag'!



Llyffantod y Twyni Sir Ddinbych:

Cadw eu Pennau uwch y Dŵr



Llyffant y twyni a welwyd yn ystod arolwg gyda'r nos yn Nhwyni Gronant.

Rydym ni'n gwybod bod 2012 wedi bod yn un o'r blynyddoedd gwlypaf erioed. Mae'r tywydd wedi bod yn andwyol i nifer o rywogaethau, gyda glawiad yn uwch a thymreddau yn is na'r ffigurau cyfartalog tymor hir trwy'r rhan fwyaf o'r gwanwyn a'r haf. Roedd y

glawiad trwm ym Mehefin yn arbennig o niweidiol i adar a oedd yn ceisio magu cywion, gyda nythod yn cael eu difetha a bwyd yn anodd ei gael.

Ond mae yna un rhywogaeth yn Sir Ddinbych sydd wedi elwa o'r holl law: sef llyffant y twyni. Mae'r rhywogaeth hon yn wahanol i'r llyffant cyffredin gan fod ganddo streipen felen i lawr ei gefn; mae'n llai o ran maint hefyd. Mae llyffantod y twyni sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf yn anifeiliaid y nos, ac mae'r gwrywod yn gwneud sŵn arbennig y gellir ei glywed dros y twyni. Mae'n bridio mewn pyllau bas yn y twyni tywod yng Ngronant ger Prestatyn. Yn anffodus, roedd llyffantod y twyni wedi diflannu yng Ngogledd Cymru ym mlynnyddoedd olaf yr Ugeinfed Ganrif. Mae'r rhaglen ail-gyflwyno'r rhywogaeth fodd bynnag wedi golygu bod nifer yn bridio bellach yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae'r glaw trwm wedi golygu bod pyllau bridio'r llyffantod hyn wedi aros yn llawn am gyfnod hirach, felly mae penbyliaid wedi cael cyfle i

ddatblygu'n llyffantod bach cyn i'r pyllau sychu. Yn wir, mae'r amodau wedi bod mor ffafriol fel bod y llyffantod wedi creu grifft broga ddwywaith yn ystod y tymor brifio, a gwelwyd llyffantod bach yn dod allan o'r pyllau ym mis Mai ac eto ym mis Awst. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn 2011 - bryd hynny, roedd y prinder



Llyffant bach newydd ddod allan o'i bwll bridio.

glaw yn golygu bod y pyllau bridio'n sychu cyn i nifer o'r llyffantod bach gael cyfle i ddatblygu'n llawn. Er hynny, mae ar yr amffibiaid bach hyn angen ein help i sicrhau eu bod yn goroesi yng Ngogledd Cymru dros y tymor hir.

Rydym yn cyfrannu at raglen fonitro yn flynyddol ac yn gweithio ar y safle i sicrhau bod yr amodau yn parhau'n ffafriol i llyffantod y twyni. Os hoffech fwy o wybodaeth, yna cysylltwch â Lizzy Webster yn Sir Ddinbych neu Sarah Slater yn Sir y Fflint.

“Mae poblogaethau bach o'r amffibiaid carismatig yn dal angen ein help i sicrhau eu goroesiad tymor hir yng Ngogledd Cymru.”

Y cyntaf mewn deugain mlynedd



Bele'r coed gwryw hapus

Yn ddiweddar, cafwyd hyd i'r sgerbwd cyntaf o bele'r coed (*pine marten*) oedd wedi'i ladd ar y ffordd ger Y Drenewydd, Powys. Gwr lleol o'r enw Olly Amy ddaeth ar draws y sgerbwd gwryw ifanc ger y ffordd fawr yn agos i bentref Aberhafesb ger Y Drenewydd. Mae Sefydliad Technoleg Waterford wedi

cynnal dadansoddiad DNA o'r sgerbwd, a ddangosodd fod y bele'r coed hwn yn anifail brodorol i Ynysoedd Prydain. Mae'r VWT yn ddiweddar wedi bod yn chwilio am olion y bele'r coed, gan ddefnyddio camerâu o bell a cheisio denu'r anifeiliaid gydag abwyd arbennig, ond er gwaethaf gwaith caled gan

dimau o wirfoddolwyr, daeth dim i'r golwg. Maen nhw hefyd wedi derbyn dros 300 o adroddiadau credadwy gan bobl sy'n dweud eu bod wedi gweld bele'r coed yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, ond ni chafwyd tystiolaeth gadarn - hyd nawr.

Project Adfer Perllannau



Mae afalau ffres neu afalau sydd wedi syrthio yn flasus.

Roedd perllannau yn bethau cyffredin yng nghefn gwlad Prydain ar un adeg, ond maen nhw bellach yn bethau prin ac wedi'u rhestru fel cynefin pwysig ar gyfer cadwraeth. Disgrifir perllannau sydd dros 60 oed fel rhai traddodiadol, ac maen nhw'n aml wedi tyfu yn yr un man ers cannoedd o flynyddoedd; maen nhw wedi'u plannu yn agos at ei gilydd er mwyn osgoi defnyddio pleiddiaid, gan ffafrio dulliau naturiol o reoli plâu. Afalau sydd i'w gweld yn bennaf yn y perllannau traddodiadol a welir yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Maen nhw'n amrywio o berllannau ffurfiol i rai anffurfiol sydd i'w gweld yn y gwrychoedd. Yn ogystal ag afalau, mae coed gellyg ac eirin, eirin duon, cnau Ffrengig a cheirios hefyd i'w gweld yng ngogledd ddwyrain

Cymru. Mae perllan yn gallu bod yn noddfa i fywyd gwyllt. Mae'r cyfuniad o goed ffrwythau a glaswelltiroedd yn aml wedi cael eu gadael i dyfu'n naturiol am gannoedd o flynyddoedd heb unrhyw welliannau amaethyddol, ac felly dyma amgylchedd sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth. Yn Hydref 2011, bu Cyngor Sir y Fflint ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn llwyddiannus yn eu cais am arian gan Lywodraeth Cymru i adfer perllannau yng ngogledd ddwyrain Cymru. Dros y gaeaf, llwyddwyd i gwblhau'r rhan fwyaf o'r project trwy

adnabod safleoedd ar gyfer perllannau newydd ac adfer hen berllannau; cydweithiwyd yn llwyddiannus gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Wrecsam ar dir cyhoeddus a thir preifat. Plannwyd 50 o safleoedd gyda hyd at 1000 o goed, a thros y gaeaf hwn, bydd y gwaith yn parhau gyda choed a gollwyd yn cael eu hailblannu a choed dros ben yn cael eu plannu ar safleoedd pellach. Os oes gennych



ddiddordeb yn y project, mae llyfryn ar gael yn rhad ac am ddim. Am wybodaeth bellach neu gopi o'r llyfryn, cysylltwch â Sarah Slater.

Defnyddiwyd mathau traddodiadol o ffrwythau i'r project.

Madfall y Tywod angen eich help chi

Madfall y Tywod ydy'r ymlusgiad mwyaf prin yn y DU. Mae'r rhywogaeth hwn yn cael ei diogelu yn Ewrop. Roedd y fadfall hon bron â diflannu ar un adeg, ond maen nhw wedi cael eu bridio mewn caethiwed, ac mae rhaglenni bridio llwyddiannus wedi'u cynnal ledled y DU gan arwain at gynydd sylweddol yn eu

poblogaeth. Fodd bynnag, mae gwinwydden sy'n dringo ac yn lledu'n gyflym, o'r enw *clematis* wedi dechrau gorchuddio'r twyni tywod lle mae madfallod y tywod yn dodwy eu hwyau yn ystod misoedd yr haf. Os na chaiff y planhigyn ei rwystro, ni fydd gan y madfallod hyn le i fyw a bridio ynddo, a dyna pam bod angen eich help chi.

Ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul Rhagfyr 1 a Rhagfyr 2, rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu i dynnu a symud y *clematis* hwn. Os allwch chi helpu ar unrhyw amser dros y penwythnos, fe allwch e-bostio eich enw a'r dyddiau y gallwch ein helpu.



E-bost:
mandycartwright@hotmail.co.uk
neu
mddewar@live.co.uk



Biodiversity Network
North East Wales
Rhwydwaith Bioamrywiaeth
Gogledd Ddwyrain Cymru

Cysylltwch â ni

Wrecsam: emma.broad@wrexham.gov.uk

Ffôn: 01978 298762

Sir y fflint: sarah.slater@flintshire.gov.uk

Ffôn: 01352 703263

Sir Ddynbych:

elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk

Ffôn: 01824 708263

Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 575123

Dilynwch Ni!

Os ydych yn hoffi ein tudalen ar Facebook, sef Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am broiectau bioamrywiaeth yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Rydym yn llwytho newyddion i'r safle yn eich hysbysu o newyddion cyffrous, digwyddiadau, ffotograffau a phroiectau yn yr ardal. Dyma ffordd syml a chyflym, ffordd sy'n rhad am ddim hefyd, o ddod i wybod pa weithgareddau bioamrywiaeth sy'n digwydd a sut allwch chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fewn eich sir.

Ymhellach, mae gennym gyfrif ar Twitter sy'n debyg i Facebook – gallwch dderbyn newyddion rheolaidd, a gwybodaeth am lwyddiannau a digwyddiadau.

Felly, dilynwch ni ar Facebook:

www.facebook.com/NEWBionet

Twitter: @newbionet



Dilynwch Ni!

Facebook: North East Wales
Biodiversity Network
Twitter: @newbionet

Beth sy'n Digwydd? Digwyddiadau & Arolygon

23 Tachwedd 2012

Darlith Lacey: Taith drwy Ardd
Fotaneg

Genedlaethol Cymru,

7.30pm Prif Theatr Ddarlith

Y Celfyddydau, Prifysgol

Bangor, Bangor

Tocynnau NWWT 01248 351541

1 Rhagfyr 2012

Diwrnod Gwylio Adar yn

Aberogwen,

Spinnies reserve 11.00-3.00

14 Rhagfyr 2012

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt

Gogledd Cymru

Noson Gymdeithasol

Nadoligaidd, 7:30 pm.

Neuadd yr Eglwys St Cyngar,

Llangefni

Rydym wedi cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau fel y gall bawb gymryd rhan a dysgu mwy am fioamrywiaeth a chefn gwlad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru!

Am fwy o weithgareddau yn eich ardal chi, edrychwch ar wefan eich awdurdod lleol a chwiliwch am y llyfrynnau sy'n rhoi manylion am ddigwyddiadau cefn gwlad neu www.cofnod.org.uk am ddigonedd o bethau amrywiol i'w gwneud!



Arolwg Gaeaf Bronfaith: Helpwch yr Ymddiriedolaeth Adareg Prydeiniggyda'r arolwg - manylion yn <http://www.bto.org/volunteersurveys/winter-thrushes>

Teithiau Cerdded Bywyd Gwyllt Sadwrn

Yn RSPB Conwy

11 am - 1 pm

Sadwrn 3 Tachwedd a phob dydd Sadwrn hyd ddiwedd Rhagfyr 2012.

Teithiau tywys i weld yr adar a'r bywyd gwyllt.

RSPB Gwarchodfa Natur Conwy LL31 9XZ

Ffôn: 01492 584091

E-bost: conwy@rspb.org.uk

<http://www.rspb.org.uk/events/index.aspx>